| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **MEETING:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **31 MA1 2017** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **TREFNIADAU CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL YN Y CYNGOR** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **ADOLYGU CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL AR BWYLLGORAU** |

1.0 Mae angen i'r Cyngor ystyried trefniadau cydbwysedd gwleidyddol ar ei bwyllgorau yn dilyn yr etholiad.

2.0 Mae Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn nodi'r prif egwyddorion sy'n ymwneud â chydbwysedd gwleidyddol, sef:

*"(a) that not all the seats on the body are allocated to the same political group;*

*(b) that the majority of the seats on the body is allocated to a particular political group if the number of persons belonging to that group is a majority of the Authority's membership;*

*(c) subject to (a) and (b) above, the number of seats on the ordinary committees of a relevant Authority which are allocated to each political group bears the same proportion to the total of all the seats on the ordinary committees of that Authority as is borne by the number of members of that group to the membership of the Authority; and*

*(d) subject to paragraphs (a) to (c) above, that the number of the seats on the body which are allocated to each political group bears the same proportion to the number of all the seats on that body as is borne by the number of members of that group to the membership of the Authority."*

3.0 Y sefyllfa o ran aelodaeth y Grwpiau yw:

| | |
|---|---|
| Plaid Cymru | - 14 |
| Llafur Cymru | - 2 |
| Y Grŵp Annibynnol | - 7 |
| Annibynwyr Môn | - 7 (gan gynnwys un Democrat Rhyddfrydol) |

4.0 Mae'r Matrics sydd ynghlwm yn nodi'r hawl i seddau ar bob Pwyllgor.

5.0 Cyfanswm nifer y seddau i'w dyrannu yw 120.

6.0 Yn amlwg, oni bai bod y cyfrifiad yn cyrraedd rhif cyfan o ran cyfanswm cyffredinol y seddau a nifer y seddau ar bob pwyllgor, yna mae'n anochel y bydd ffracsiynau,

ac felly mae'n amhosib cydymffurfio'n union. Fodd bynnag, mae angen sicrhau'r cydymffurfiad gorau posib yn unol â'r egwyddorion a nodir ym mharagraff 2 uchod.

7.0 Ni all unrhyw grŵp gwleidyddol ar y Cyngor ond dyrannu'r seddau y mae'n eu derbyn o dan y trefniadau cydbwysedd gwleidyddol i'w aelodau ei hun ac ni all ddyrannu sedd i Gynghorydd nad yw'n aelod o'r un grŵp gwleidyddol hwnnw.

8.0 Yn unol â'r protocolau rheolaeth wleidyddol, bydd angen i Arweinyddion y Grwpiau ac Arweinydd y Cyngor gyfarfod gyda Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd cyn cyfarfod y Cyngor ar 31 Mai, 2017 i ddarparu rhestr o enwau cynrychiolwyr eu Grwpiau ar bob pwyllgor ynghyd â'u cynigion ar gyfer pa Gynghorwyr fydd Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion pob pwyllgor er mwyn paratoi ar gyfer y cyfarfodydd a gynhelir yn syth ar ôl cyfarfod y Cyngor ar 31 Mai, 2017 i ethol Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion pwyllgorau.

9.0 Er nad ydynt yn ddarostyngedig i ofynion cydbwysedd gwleidyddol, mae angen i'r Cyngor benodi 2 Aelod Etholedig i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau am gyfnod y Cyngor.

**10.0 Argymhellion:-**

Gofynnir i'r Cyngor:

(i) nodi'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol priodol newydd a nifer y seddau y gellir eu priodoli i bob un o'r Grwpiau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, a'r nifer o seddau a roddir trwy ddefod ac arfer i'r Aelod (au) nad yw'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol yn berthnasol iddynt;

(ii) cadarnhau enwau'r Aelodau a fydd yn eistedd ar y pwyllgorau isod er mwyn paratoi ar gyfer y cyfarfodydd i ethol Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion a gynhelir yn syth ar ôl y cyfarfod hwn:
Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, Pwyllgor Archwilio, Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion, Pwyllgor Trwyddedu, Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd (Is-Gadeirydd yn unig).

(iii) Mewn perthynas â'r pwyllgorau eraill a nodir yn yr atodiad i'r adroddiad hwn, bod Arweinyddion y Grwpiau yn darparu manylion am aelodaeth i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd cyn gynted ag y bo modd;

(iv) penodi dau Aelod i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau am gyfnod y Cyngor yn unol â pharagraff 9 uchod.

Huw Jones
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd 26/5/2017

| Mai 2017 |
|---|
| May 2017 |

| Balans ar y Cyngor Sir<br>Balance on County Council | |
|---|---|
| Plaid Cymru<br>Party of Wales | 14 |
| Llafur Cymru<br>Welsh Labour | 2 |
| Y Grwp Annibynnol | 7 |
| Annibynwyr Mon<br>Anglesey Independents | 7 |
| | |
| | 30 |

**PWYLLGORAU CRAFFU A THROSOLWG**
**SCRUTINY AND OVERVIEW COMMITTEES**

| Pwyllgorau<br>Committees | Partneriaeth<br>Partnership | Corfforaethol<br>Corporate | Cyfanswm Craffu<br>Total Scrutiny |
|---|---|---|---|
| Aelodaeth<br>Membership | 10 | 10 | 20 |
| | 4.666667<br>5 | 4.66667<br>5 | 9.33333<br>10 |
| | 0.666667<br>1 | 0.66667<br>1 | 1.33333<br>2 |
| | 2.333333<br>2 | 2.33333<br>2 | 4.66667<br>4 |
| | 2.333333<br>2 | 2.33333<br>2 | 4.66667<br>4 |
| | 0<br>0 | 0<br>0 | 0<br>0 |
| | 10<br>10 | 10<br>10 | 20<br>20 |

| ALLWEDD | KEY |
|---|---|
| Chwith uchaf, italic = hawl ffracsiynol damcaniaeth | |
| Top left, italic, theoretical fractional entitlement | |
| Dde isaf, arferol = awgrym rhif llawn | |
| Bottom right, normal = whole number suggestion | |

**LLED-FARNWROL / QUASI-JUDICIAL** (Cynllunio a Gorchmynion – Trwyddedu); **PWYLLGORAU ERAILL Y CYNGOR / OTHER COMMITTEES OF THE COUNCIL** (CYSAG – Is-Bwyllgor Indemniadau)

| Pwyllgorau<br>Committees | Cynllunio a Gorchmynion<br>Planning and Orders | Archwilio<br>Audit | Gwasanaethau Democrataidd<br>Democratic Services | Penodiadau<br>Appointments | Ymchwilio<br>Investigation | Disgyblu<br>Disciplinary | Apeliadau<br>Appeals | Trwyddedu<br>Licensing | CYSAG<br>SACRE | Anghenion Addysgol Arbennig<br>Special Educational Needs | Cynllunio ar y cyd<br>Joint Planning | Tal a Graddio<br>Pay and Grading | Penodi Safonau<br>Standards Appointing | Is-Bwyllgor Indemniadau<br>Indemnities sub-Committee | Cyfanswm Eraill<br>Total Others | CYFANSWM LLAWN<br>GRAND TOTAL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aelodaeth<br>Membership | 11 | 8 | 10 | 10 | 3 | 3 | 10 | 11 | 6 | 7 | 7 | 6 | 3 | 5 | 100 | 120 |
| Plaid Cymru<br>Party of Wales | 5.13333<br>5 | 3.73333<br>4 | 4.66667<br>5 | 4.66667<br>5 | 1.4<br>1 | 1.4<br>1 | 4.666667<br>5 | 5.133333<br>5 | 2.8<br>3 | 3.26667<br>3 | 3.26667<br>3 | 2.8<br>3 | 1.4<br>1 | 2.333333<br>2 | 46.66667<br>46 | 56<br>56 |
| Llafur Cymru<br>Welsh Labour | 0.73333<br>1 | 0.53333<br>0 | 0.66667<br>1 | 0.66667<br>1 | 0.2<br>0 | 0.2<br>0 | 0.666667<br>1 | 0.733333<br>1 | 0.4<br>1 | 0.46667<br>0 | 0.46667<br>0 | 0.4<br>1 | 0.2<br>0 | 0.333333<br>1 | 6.666667<br>8 | 8<br>10 |
| Y Grwp Annibynnol | 2.56667<br>2 | 1.86667<br>2 | 2.33333<br>2 | 2.33333<br>2 | 0.7<br>1 | 0.7<br>1 | 2.333333<br>2 | 2.566667<br>2 | 1.4<br>1 | 1.63333<br>2 | 1.63333<br>2 | 1.4<br>1 | 0.7<br>1 | 1.166667<br>1 | 23.33333<br>22 | 28<br>26 |
| Annibynwyr Mon<br>Anglesey Independents | 2.56667<br>3 | 1.86667<br>2 | 2.33333<br>2 | 2.33333<br>2 | 0.7<br>1 | 0.7<br>1 | 2.333333<br>2 | 2.566667<br>3 | 1.4<br>1 | 1.63333<br>2 | 1.63333<br>2 | 1.4<br>1 | 0.7<br>1 | 1.166667<br>1 | 23.33333<br>24 | 28<br>28 |
| | 0<br>0 | 0<br>0 | 0<br>0 | 0<br>0 | 0<br>0 | 0<br>0 | 0<br>0 | 0<br>0 | 0<br>0 | 0<br>0 | 0<br>0 | 0<br>0 | 0<br>0 | 0<br>0 | 0<br>0 | 0<br>0 |
| | 11 | 8 | 10<br>10 | 10<br>10 | 3<br>3 | 3<br>3 | 10<br>10 | 11 | 6<br>6 | 7<br>7 | 7<br>7 | 6<br>6 | 3<br>3 | 5<br>5 | 100<br>#REF! | 120<br>120 |